**Hybu Cig Cymru**
Meat Promotion Wales

# Bwletin y Farchnad HCC


Gorffennaf 2018

Rhagwelir y bydd cyfanswm gwerth cynnyrch amaethyddol cyfun Cymru yn cynyddu 12% i £1,594 miliwn ar gyfer 2017, ac y bydd incwm ffermydd yng Nghymru ar gyfer 2017/18 yn amrywio'n fawr dros y flwyddyn, gan ddibynnu ar y math o fferm. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych yn fanylach ar y datganiadau ystadegol hyn.

### Cynnyrch ac incwm amaethyddol cyfun, 2017

Cyhoeddwyd yr adroddiad ystadegol 'Allbwn ac incwm amaethyddol cyfun' gan Lywodraeth Cymru yn ystod mis Mawrth eleni. Rhagwelir y bydd cyfanswm gwerth yr allbwn amaethyddol cyfun yng Nghymru ar gyfer 2017 yn £1,594 miliwn, sef 12% (£174 miliwn) yn uwch na'r ffigur amodol ar gyfer 2016.

**Allbwn Amaethyddol Cymru i Wartheg a Defaid**




Rhagwelir y bydd y gwerthoedd allbwn o werthiannau gwartheg (cig eidion a llaeth) yn cynyddu £30 miliwn (neu 8%) i £407 miliwn – a hynny'n debygol o ganlyniad i well amodau marchnad, a gafodd hwb am fod y bunt yn wannach na'r Ewro. Amcangyfrifir y bydd gwerth allbwn y sector defaid yn disgyn ychydig fesul 1% (£3 miliwn) i £264 miliwn, er y byddai hyn yn gynnydd at ei gilydd o 3% oddi ar 2015. Ar y cyd, mae'r allbwn crynswth o wartheg a defaid yn 42% o werth allbwn amaethyddol yng Nghymru, sy'n dangos pa mor bwysig yw cynhyrchu cig coch i'r sector amaethyddol yng Nghymru.

Yn y sector moch, rhagwelir gwerth allbwn amaethyddol o £6 miliwn, sef 23% yn fwy nag yn 2016 – yn debygol am fod llai o gyflenwad yn yr UE yn cyfrannu at brisiau uwch yn y farchnad.

### Rhagolygon incwm ffermydd yng Nghymru, 2017/18

Cafwyd cyhoeddiad ystadegol arall, 'Rhagolygon incwm ffermydd yng Nghymru, 2017/18' ym mis Mawrth hefyd. Er y gallai'r ffigurau (fel gyda'r holl fathau hyn o ddatganiadau) gael eu diwygio, maen nhw'n rhoi syniad defnyddiol o dueddiadau hirdymor incwm ffermydd yng Nghymru.

**Incwm cyfartalog busnesau fferm (pob math o fferm) = £31,000 y fferm**
**+27% o'r naill flwyddyn i'r llall**

Rhagwelir y bydd yr incwm busnes cyfartalog ar gyfer fferm gwartheg a defaid mewn Ardal Llai Ffafriol yn cynyddu 11% i £25,500 y fferm yn 2017/18 - yn fwy na thebyg oherwydd gwell prisiau ar gyfer gwartheg cig eidion a defaid. Fodd bynnag, mae newidiadau i daliadau cymorth fel y Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) a thaliadau amaeth-amgylcheddol yn cael mwy o effaith yn gyffredinol ar incwm y math hwn o fferm.


Nodir bod yr incwm a ragwelir ar gyfer ffermydd gwartheg a defaid ar dir isel yng Nghymru yn £24,500, sef 7.9% (neu £1,800) yn uwch nag yn 2016/17. Mae hyn oherwydd cynnydd mewn taliadau BPS/amaeth-amgylcheddol a'r nifer gynyddol o anifeiliaid cig eidion ar ffermydd tir isel. Rhagwelir y bydd incwm ffermydd llaeth yng Nghymru yn mwy na dyblu o £31,300 y fferm i £65,000 yn 2017/18 - ond bydd amrywiad eang mewn prisiau llaeth yn dylanwadu ar ffigurau ffermydd unigol.

### Gwledd o farbeciws Gwyl y Banc!

Yn ôl ystadegau gan Kantar am y 12 wythnos tan 20 Mai, cafwyd cynnydd mawr yn y farchnad gig oherwydd y tywydd da. Nodir y cafodd 17% yn fwy o fyrgyrs eu gwerthu na'r llynedd, sef 1.7 miliwn cilogram ychwanegol.




# Gwartheg





Parhaodd prisiau gwartheg dethol yn gymharol sefydlog mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr ym mis Mehefin; fodd bynnag, fel erioed, bydd y cydbwysedd cyflenwad / galw cyffredinol yn pennu cyfeiriad masnach y farchnad yn y dyfodol.

**Prisiau'r farchnad yng Nghymru a Lloegr**; roedd y pris cyfartalog ar gyfer gwartheg dethol yn 195.1c/kg ar gyfer yr wythnos ddiweddaraf a ddaeth i ben ar 23 Mehefin, sef 3.3c yn is nag yn yr wythnos flaenorol, a 2.0c yn is nag yn yr wythnos gyfatebol flwyddyn ynghynt. Dyma'r tro cyntaf eleni i brisiau ostwng yn is nag oedden nhw yn ystod y cyfnod cyfatebol y llynedd. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 23 Mehefin, roedd prisiau cyfartalog bustych, heffrod a theirw ifainc yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol, sef 194.5c, 204.3c a 195.1c yn ôl eu trefn. Er gwaethaf y gostyngiad diweddaraf hwn, mae'r galw am gig eidion yn debygol o barhau'n gryf, yn enwedig os bydd y tywydd 'barbeciw' yn aros.





**Prisiau pwysau marw yng Nghymru a Lloegr**; mae prisiau gwartheg dethol wedi parhau'n gymharol sefydlog ers dechrau'r flwyddyn, ac roeddynt yn uwch na'r llynedd yn ystod misoedd Mai a Mehefin. Roedd pris cyfartalog bustych yng Nghymru a Lloegr ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 23 Mehefin yn 365.7c/kg pm, sef gostyngiad o 0.6c o'i gymharu â'r wythnos flaenorol, ond 6.5c yn uwch na'r llynedd. Gostwng hefyd wnaeth y pris pwysau marw am heffrod (gostyngiad o 1.2c) i 368.6c/kg, ond cynyddodd y pris am deirw ifainc i 352.7c/kg, sef 2.8c yn uwch na'r wythnos flaenorol.

**Nifer o wartheg yn lladd-dai'r DG**; lladdwyd 224,100 o wartheg yn ystod mis Mai, sef 3.4% yn fwy nag yn Ebrill. Cyfanswm y gwartheg dethol a laddwyd oedd y prif reswm am y cynnydd; lladdwyd 173,900, sef 6% yn fwy nag yn y mis blaenorol. Mewn cymhariaeth â'r cyfnod cyfatebol y llynedd, lladdwyd 0.6% yn llai o wartheg dethol, ond lladdwyd 4% yn fwy o heffrod na'r llynedd. Lladdwyd 2.7% yn llai o fustych a 6.4% yn llai o deirw ifainc nag ym mis Mai'r llynedd – er bod adroddiadau'n awgrymu fod y galw am gig eidion o Brydain ychydig yn fwy na'r cyflenwad.




# Defaid





Ers mis Ionawr, mae prisiau ŵyn wedi bod yn sylweddol uwch na'r llynedd, gyda masnach mis Mai a mis Mehefin yn parhau â'r duedd hon. Bydd y prisiau yn ystod gweddill y flwyddyn yn dibynnu i raddau helaeth ar y nifer sydd ar gael yn dilyn cyfnod wyna anodd.

**Prisiau'r farchnad yng Nghymru**; Roedd y dyfynbris ansawdd safonol (SQQ) ar gyfer ŵyn Tymor Newydd mewn marchnadoedd da byw yn yr wythnos yn diweddu 23 Mehefin yn 227.6c/kg, sef 4.9c yn uwch na'r un cyfnod y llynedd, ond 20c yn llai nag yn yr wythnos flaenorol. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae nifer yr ŵyn tymor newydd a werthwyd wedi cynyddu'n gyson i dros 19,000 ar gyfer yr wythnos yn diweddu 23 Mehefin - ond mae'r niferoedd yn 18% yn is o hyd o'u cymharu â'r un cyfnod y llynedd. Mae'n bosibl fod y tywydd gwael ar ddechrau eleni wedi effeithio'n andwyol ar gyfraddau goroesi a chyfraddau twf yr ŵyn newydd. Roedd y prisiau am famogiaid difa mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru yn £58.00 y ddafad yn ystod yr wythnos yn diweddu 23 Mehefin, sef £3.00 yn is nag yn ystod y cyfnod cyfatebol y llynedd.





**Prisiau pwysau marw ym Mhrydain**; roedd prisiau ŵyn yn 524.6c/kg yn yr wythnos yn diweddu 23 Mehefin, sef 37.2c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol y llynedd, er gwaethaf gostyngiad o 17c o'r naill wythnos i'r llall. Ar ôl cyfnod wyna anodd, mae niferoedd yr ŵyn tymor newydd yn dal i fod yn is na'r llynedd, sy'n golygu taw nifer gyfyngedig o ŵyn sydd ar gael ar hyn o bryd i'r lladd-dai.

**Nifer o ddefaid yn lladd-dai'r DG**; Lladdwyd 910,200 o ŵyn dethol yn ystod mis Mai, sef 68,300 (7%) yn llai na'r llynedd. Mae'n debygol taw'r rheswm am hyn yw bod rhai cynhyrchwyr eisoes wedi manteisio ar brisiau tymhorol uchel y farchnad yn ystod y misoedd diwethaf, ynghyd â llai o ŵyn tymor newydd ar werth, gyda'r canlyniad bod llai o ŵyn o bob oed ar gael. Lladdwyd 11% yn fwy o ŵyn dethol ym mis Mai nag ym mis Ebrill, sy'n awgrymu fod nifer o ŵyn tymor newydd yn cynyddu'n araf.





Lladdwyd 124,600 o famogiaid difa a hyrddod mewn lladd-dai yn y DG yn ystod y mis, sef 6% yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, ond 8% yn fwy nag ym mis Ebrill.

# Moch





Er gwaethaf y cynnydd bychan a gofnodwyd yn ddiweddar, mae'r pris cyfartalog ar gyfer moch yn dal i fod yn is nag oedd y llynedd. Mae adroddiadau gan y diwydiant yn awgrymu bod y cynnydd a gafwyd yn gysylltiedig â mwy o alw oherwydd y tywydd da a gafwyd yn ddiweddar.

**Prisiau pwysau marw ym Mhrydain**; Parhaodd cyfartaledd prisiau manyleb-UE yr holl foch yn gymharol debyg ers dechrau'r flwyddyn, ac roedd y prisiau a gofnodwyd oddi ar ganol mis Ebrill yn fwy na 10.0c yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 09 Mehefin, cafwyd cynnydd o 0.1c i 152.4c/kg ym mhrisiau'r holl foch (manyleb yr UE) mewn cymhariaeth â'r wythnos flaenorol. Mae'r pris ar hyn o bryd yn 13c yn is nag yn yr wythnos gyfatebol y llynedd, ac yn debyg i'r prisiau a gofnodwyd ym mis Ionawr eleni.




**Prisiau perchyll ym Mhrydain**; roedd y pris cyfartalog am berchyll 30kg yn £54.06/pen yn yr wythnos yn diweddu 16 Mehefin, sef 0.1c yn fwy nag yn yr wythnos flaenorol. O'i gymharu â blwyddyn yn ôl, mae hyn yn ostyngiad o bron 17%. Yn yr un wythnos, cafwyd cynnydd o 5c i £38.12/pen ym mhris perchyll 7kg o'i gymharu ag wythnos yn gynharach - er bod y pris hwn bron 12% yn is na blwyddyn yn ôl.

**Cyfanswm y moch a laddwyd yn lladd-dai'r DG**; lladdwyd 920,700 o foch ym mis Mai, sef cynnydd o 2.3% mewn cymhariaeth â mis Ebrill, ond gostyngiad o 2% mewn cymhariaeth â'r cyfnod cyfatebol y llynedd. Lladdwyd 897,900 o foch heb fagu, sef 14,100 (1.6%) yn fwy nag ym mis Mai'r llynedd a 2.3% yn fwy nag ym mis Ebrill.




Lladdwyd 22,900 o hychod a baeddod yn lladdai'r DG yn ystod mis Mai, sef bron 21% yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, a 6% yn fwy nag ym mis Ebrill.

Am fod prinder carbon deuocsid (($CO_2$)) yn cael effaith ar rai o'r proseswyr mwyaf yn y DG, mae disgwyl y bydd llai o foch nag arfer yn cael eu lladd ym mis Mehefin.